



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gymuned Ddysgu Ebwy Fawr
Lime Avenue
Glynebwy
Blaenau Gwent
NP23 6GL**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2016

Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-16 oed yw Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr a gynhelir gan awdurdod lleol Blaenau Gwent. Agorwyd yr ysgol yn 2012 fel ysgol ar gyfer disgyblion 3-18 oed ar ôl cau dwy ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd leol. Caewyd trydedd ysgol gynradd yn Awst 2013 ac ymunodd mwyafrif y myfyrwyr hynny â'r sector cynradd. Daeth y chweched dosbarth i ben ar ddiwedd 2012-2013.

Mae 1,410 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 1,060 yn y sector uwchradd, a 350 yn y sector cynradd. Symudodd yr ysgol i adeiladau cynradd newydd yn Nhachwedd 2012 ac adeiladau uwchradd newydd yn Nhachwedd 2012 a Medi 2013. Mae adeiladau'r sector cynradd a sector uwchradd tua 1.5 milltir ar wahân. Mae tua 24.4% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17.4%, ac ar gyfer ysgolion cynradd, sef 20.1%. Mae disgyblion yn dod yno o Lynebwy a'r ardal gyfagos. Mae tua 28.4% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o gefndir gwyn, Prydeinig.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae gan 4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ynghlwm wrth yr ysgol, ac fe gaiff y disgyblion hyn eu cynnwys ar gofrestr yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y cyfarwyddwr a thri chyfarwyddwr sector. Dechreuodd y cyfarwyddwr a dau gyfarwyddwr sector ar eu swyddi ym Medi 2012. Dechreuodd cyfarwyddwr sector ychwanegol ym Medi 2015.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Canolfan Ddysgu Ebwy Fawr yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,654 fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad yn ôl asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion eraill sydd â ffactorau cymdeithasol ac economaidd tebyg
- mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil yn eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd; mae hyn yn arbennig o wir yn achos y sector cynradd
- bron ym mhob gwersi, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac maent yn ymddwyn yn dda
- mewn llawer o wersi, yn enwedig yn y sector cynradd, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn cynllunio eu gwersi'n ofalus
- mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn gryfder yn yr ysgol
- mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a gynigir gan yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion yn y sector cynradd
- mae'r ysgol wedi datblygu ystod o fentrau arloesol a defnyddiol i helpu cyfathrebu â rhieni

Fodd bynnag:

- mewn lleiafrif o wersi, yn y sector uwchradd yn bennaf, mae disgwyliadau o ddisgyblion yn rhy isel, cynhelir gwersi ar gyflymdra araf ac ni chaiff tasgau eu haddasu i weddu i anghenion dysgu unigol disgyblion
- yn y sector uwchradd, mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn pryderu am fwlio, ac nid yw'r ysgol yn delio â'r mater yn ddigon da
- mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel ac wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf
- yn y sector uwchradd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod eu gwaith, ac atebion byr yn unig y maent yn eu cynnig i gwestiynau eu hathrawon

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y cyfarwyddwr ac uwch arweinwyr weledigaeth a chynllun strategol clir ar gyfer gwella addysgu a dysgu
- mae ffocws cryf i'r gwaith tîm, sydd wedi cael ei gyfleu'n llwyddiannus i'r rhan fwyaf o aelodau staff
- mae arweinwyr yn defnyddio data yn briodol i fonitro perfformiad a chynhyrchu

pwyntiau gweithredu ar gyfer gwella

- mae gan yr ysgol gynlluniau addas i fynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwerthusiad manwl o berfformiad disgyblion mewn asesiadau athrawon ac arholiadau allanol

Fodd bynnag:

- nid yw'r arfarniad o les disgyblion yn yr adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn cyd-fynd yn ddigonol â'r dystiolaeth y mae'r ysgol wedi ei chasglu
- nid yw cynllunio'r ysgol ar gyfer gwella yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar les
- tan yn ddiweddar, nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon trylwyr ar ddelio â bwlio yn y sector uwchradd

Argymhellion

- A1 Gwella'r ffordd y caiff gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu lles disgyblion yn y sector uwchradd eu rhoi ar waith, trwy ddelio'n effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio
- A2 Gwella medrau dysgu'n annibynnol a llafaredd disgyblion yn y sector uwchradd
- A3 Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig yn y sector uwchradd
- A4 Sicrhau bod huanarfarnu a chynllunio gwelliant yn defnyddio ystod gyfan y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan yr ysgol
- A5 Lleihau cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol yn y sector uwchradd
- A6 Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion ar gyfer gweithred ddyddiol o gydaddoli yn y sector uwchradd

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol ymhen 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Da

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwylidig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn amrywiol, ond mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar y cyfan. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd yn gosod yr ysgol yn gyson yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol ar y deilliant uwch wedi gwella yn 2015 ac mae'n gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg am y tro cyntaf er 2013.

Er 2013, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 neu'n uwch wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyfan. Fodd bynnag, ar lefel 5 neu'n uwch, mae perfformiad yn y pynciau hyn wedi bod yn amrywiol.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn ôl cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gwella'n gyson bron ym mhob dangosydd allweddol er 2013. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gosod yr ysgol yn hanner uchaf neu chwarter uchaf yr ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu ac uwchlaw deilliannau wedi eu modelu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gymysg. Fodd bynnag, mae perfformiad y grŵp hwn ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg ac yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched, yn enwedig ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella'n gyson, ac yn 2015, maent wedi perfformio gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn eraill mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach. Dros y tair blynedd ddiwethaf, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sydd wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mewn llawer o wersi, maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn adeiladu ar hyn i wneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u medrau pwnc.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando priodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, gallant sgwrsio'n glir, trafod profiadau a digwyddiadau yn hyderus, a mynegi barn syml yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ar blant a phobl eraill yn astud ac yn addasu eu sgwrsiau yn briodol. Mae llawer ohonynt yn datblygu ystod dda o eirfa a gwerthfawrogiad o wahanol safbwyntiau. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn trafod eu syniadau'n hyderus ac eglur. Yn y gwersi hyn, defnyddiant eirfa eang gyffredinol a geirfa sy'n benodol i bwnc. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw disgyblion yn hyderus wrth siarad ac maent yn cynnig atebion byr, annatblygedig i gwestiynau athrawon.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda a gallant lunio casgliadau addas wrth archwilio tystiolaeth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn rhy oddefgar, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad eu medrau meddwl annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safon darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol i'w hoedran. Maent yn darllen ar goedd gyda lefel gynyddol o gywirdeb a rhuglder. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus a chymwys. Maent yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac maent yn deall prif gynnwys y testun yn dda. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddod o hyd i wybodaeth yn fedrus, er enghraifft trwy frasddarllen i gael y cynnwys cyffredinol a bwrw golwg dros y testun i gael manylion. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhwydd, a gallant ddewis gwybodaeth berthnasol o destun a defnyddio hyn i ddatblygu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau pan fyddant yn dod ar draws geiriau anghyfarwydd ac ni all rhai ohonynt wneud synnwyr o'r hyn y maent wedi ei ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o wahanol *genres* yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn dangos rheolaeth dros faint a chyfeiriad eu testun. Defnyddiant atalnodi syml, atalnodau llawn a phriflythrennau gyda graddau rhesymol o gywirdeb. Yng nghyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dewis eang o eirfa. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod gynyddol o atalnodi yn effeithiol i wella eu gwaith. Mae eu llawysgrifen a'u cyflwyniad yn dda ac mae eu sillafu yn gywir ar y cyfan. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn dda ar draws y cwricwlwm wrth ysgrifennu adroddiad am ymweliad daearyddiaeth neu wrth ysgrifennu cerdd am afonydd. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn cynhyrchu darnau addas o ysgrifennu estynedig mewn llawer o bynciau. Fodd bynnag, mewn rhai pynciau, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda lefel briodol o gywirdeb ac mae mwyafrif ohonynt, yn enwedig merched, yn mynegi eu hunain yn ystyriol a chydlynus. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol yn rheolaidd, ac mae rhai ohonynt yn ysgrifennu brawddegau sy'n ddrislyd ac aneglur.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif a mesur cadarn, ac maent yn cymhwysu'r rhain yn dda mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i gyfrifo cost bar o siocled yng nghyfnod allweddol 2, ac wrth fesur ffyn hud gan ddefnyddio mesuriadau safonol yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddatrys problemau yn gywir gan ddefnyddio ystod o ddulliau, er enghraifft wrth ddatrys amserlenni hediadau. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn ystod o bynciau. Gall llawer ohonynt, er enghraifft, newid mesuriadau rhwng gwahanol unedau, ac mae mwyafrif ohonynt yn llunio siartiau bar a llinell cywir.

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn gryfder yn yr ysgol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi gwella, ac yn 2015, mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer y cofrestrïadau ar gyfer y cwrs llawn yn uchel, ac mae perfformiad yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir yn Gymraeg ac yn aildrafftio eu gwaith i wella'i ansawdd yn sylweddol.

Lles: Anfoddhaol

Yn y sector cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae'r disgyblion yn hapus a hyderus. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn pryderu am fwlio ac yn credu nad yw'r ysgol yn delio â'r broblem yn ddigon da. Caiff hyn effaith sylweddol ar les disgyblion yn sector uwchradd yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad da yn ystod gwersi, ac yn gyffredinol, maent yn llwyddo i ganolbwyntio'n briodol yn ystod tasgau. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae rhai disgyblion yn dangos ymddygiad gwael yn ystod amser egwyl ac wrth symud o un wers i'r llall. Yn y sector uwchradd, mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr o ran datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Yn y sector cynradd, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o hyder wrth gyfrannu at weithgareddau grŵp a phâr. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, nid yw mwyafrif ohonynt yn hyderus wrth drafod eu gwaith mewn grwpiau neu wrth ateb cwestiynau. Mae hyn yn rhwystro datblygiad eu medrau siarad a rhyngbersonol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn sylweddoli gwerth gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac mae tua hanner y disgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau corfforol allgyrsiol a gynigir, fel y clwb aml-chwaraeon a'r rhaglen 5x60.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol. Maent yn dechrau dylanwadu ar, a chymryd rhan mewn, penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn yr ysgol, er enghraifft wrth gymryd rhan yn y broses recriwtio staff, wrth sicrhau

offer yn yr awyr agored ar gyfer amser egwyl, ac wrth greu gradd eco. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu cymuned leol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn prosiectau adfywio lleol, fel adnewyddu Clwb Rygbi a Phêl-droed Glynebwy a chymryd rhan mewn codi arian ar gyfer yr ysgol a llawer o elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r dydd ac ar gyfer eu gwersi.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
------------------------------------------------------------	----------------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion statudol. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ceir ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion pob dysgwr. Yng nghyfnod allweddol 4, gall disgyblion elwa ar ystod eang o lwybrau dysgu, sy'n cynnwys pynciau cyffredinol a galwedigaethol addas. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i hoffterau disgyblion wrth lunio eu dewislenni pwnc. Mae cysylltiadau defnyddiol â'r coleg lleol yn ehangu dewisiadau opsiwn disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol buddiol, gan gynnwys gwobr Dug Caeredin.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn o ran cynllunio a chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau ar draws mwyafrif y pynciau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Ceir rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy'n darparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol gwan. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryf ar draws pob cyfnod allweddol. Rhoddir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel 'Hyrwyddwr y Gymraeg' neu fel rhan o'r 'Pwyllgor Dwyieithog'. Ceir blogiau disgyblion effeithiol sydd ar gael i ddisgyblion eraill a staff, sy'n modelu iaith. Mae'r ysgol wedi gwella'i darpariaeth yn ddiweddar trwy gynnig cwrs llawn Cymraeg TGAU ar gyfer pob disgybl ym Mlwyddyn 10. Mae'r mentrau hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol i ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd. Mae'r grŵp eco yn rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd defnyddiol i godi arian a hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r grŵp wedi cynnal arolwg o dir yr ysgol i ganfod ardaloedd sy'n dueddol o gynnwys sbwriel ac wedi sicrhau bod mwy o finiau'n cael eu darparu yn yr ardaloedd hyn.

Addysgu: Digonol

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil mewn llawer o wersi. Fodd bynnag, mae ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r asesu yn y sector cynradd yn uwch ac yn fwy cyson nag ydyw yn y sector uwchradd.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, ac maent yn fodolau iaith buddiol. Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn cynllunio eu gwersi'n ofalus i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n datblygu gwybodaeth a medrau pwnc. Mae camau eglur i'r gwersi hyn, sy'n cynnal diddordeb disgyblion ac yn sicrhau rhediad cyflym. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn sylwgar ac yn symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth i gynnig cymorth buddiol i ddisgyblion unigol i ddatblygu eu darllen, eu hysgrifennu a'u rhifedd. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau agored a dilynol yn dda i archwilio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau eithriadol o uchel o ddisgyblion, ac maent yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n cynnwys tasgau sy'n gynyddol heriol.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau i ddatblygu meddwl disgyblion yn ddigon da. Yn y gwersi hyn, mae disgwyliadau athrawon o ddisgyblion yn rhy isel ac nid yw gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn dal dychymyg disgyblion, ac maent yn cynnwys tasgau arwynebol digyswllt. Mae'r gwersi hyn yn symud yn araf ac ni chaiff tasgau eu haddasu i weddu i anghenion dysgu unigol disgyblion. Mae'r diffygion hyn yn llawer mwy amlwg yn y sector uwchradd nag yn y sector cynradd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae marcio gwaith disgyblion yn gyfoes. Mewn llawer o lyfrau, mae athrawon yn ysgrifennu sylwadau adeiladol ac yn cynnig cyngor gwerthfawr ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn cynnig asesiad gofalus a manwl o waith disgyblion gyda phwyntiau gweithredu adeiladol i arwain gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw sylwadau lleiafrif o athrawon yn ddigon clir neu benodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mewn mwyafrif o achosion, mae athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn dda i alluogi disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill, a gosod targedau defnyddiol ar gyfer gwella.

Mae uwch arweinwyr yn olrhain a dadansoddi perfformiad disgyblion yn rheolaidd a thrylwyr. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio gwybodaeth o'r system hon yn dda i gynllunio ymyriadau defnyddiol. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion gyda thargedau defnyddiol ar gyfer gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gymorth addas ar gyfer datblygu iechyd disgyblion, a'r mwyafrif o agweddau ar eu lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion yn y sector cynradd. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff gweithdrefnau ar gyfer delio â bwlio eu rhoi ar waith yn y sector uwchradd yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol bolisiâu clir i hyrwyddo ymddygiad da ar gyfer dysgu mewn gwersi. Mae wedi cryfhau ei pholisiâu a'i threfniadau yn ddiweddar iawn ar gyfer delio ag achosion o fwlio ac aflonyddwch. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu cymhwyso'n ddigon cyson na llwyddiannus yn y sector uwchradd.

Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae tŷ bwyta'r sector uwchradd yn agor am 8 a.m. bob bore ar gyfer y 'clwb brechwast iach'.

Mae'r ysgol yn darparu arweiniad defnyddiol i ddisgyblion a rhieni ar adegau pontio pwysig, gan gynnwys rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd. Mae strategaeth yr ysgol i wella ymgysylltu â rhieni wedi cael effaith gadarnhaol, sy'n cynnwys gwella presenoldeb. Mae datblygu prosiect allymestyn 'Chat@EFLC' yn enghraifft o arloesedd nodedig sy'n helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn cwmpasu ystod eang o themâu pwysig, er enghraifft diogelwch ar y rhyngwrwd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer y weithred gyd-addoli ddyddiol.

Mae athrawon a staff cymorth yn yr ysgol yn wybodus am anghenion unigol disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ganolfan adnoddau dysgu wedi ei threfnu'n dda ac yn cynnwys offer da, ac mae'r disgyblion sy'n mynychu yn cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw targedau mewn cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion prif ffrwd yn fesuradwy.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a'i nod yw sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn herio stereoteipio yn agweddau disgyblion yn briodol, a'i nod yw hyrwyddo goddefgarwch ymhlith yr holl ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac fe geir perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng llawer o ddisgyblion a staff. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu ethos cadarnhaol yn y sector cynradd.

Mae adeiladau'r ysgol yn fodern a helaeth, ac yn bodloni anghenion y cwricwlwm yn briodol. Mae'r ardal fwyta yn y sector uwchradd yn fach, ond mae'r ysgol yn rheoli'r agwedd hon yn dda.

Mae'r ysgol wedi ei haddurno'n dda ac mae arddangosfeydd ysgogol o waith disgyblion sy'n gwella'r amgylchedd dysgu. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnwys adnoddau da, ond nid oes llyfrgell yn y sector uwchradd. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda.

Mae'r ysgol yn elwa ar ystafelloedd dosbarth o faint da, ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'r ganolfan hamdden gyfagos.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
----------------------------------------------------------------------------	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mewn cyfnod byr, o ganlyniad i ailstrwythuro radical a chymhleth y ddarpariaeth addysg yng Nglynebwy, mae'r cyfarwyddwr a'r uwch arweinwyr wedi bod yn arloesol o ran sefydlu ysgol pob oed newydd. Mae ganddynt weledigaeth a chynllun strategol clir ar gyfer gwella addysgu a dysgu. Bu ffocws cryf ar greu diwylliant o waith tîm, yn seiliedig ar y datganiad cenhadaeth, sef 'Dysgu i Gyflawni Gyda'n Gilydd'. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at welliant cyffredinol mewn perfformiad ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon llwyddiannus o ran sicrhau lefelau addas o les disgyblion yn y sector uwchradd.

Ceir strwythur cydlynus o grwpiau arwain ar lawer o lefelau gyda llinellau atebolrwydd clir. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn effeithiol o ran mynd i'r afael â thanberfformio a sefydlu cynlluniau gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio data yn briodol i fonitro perfformiad a chynhyrchu pwyntiau gweithredu ar gyfer gwella. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon trylwyr ar wella lles disgyblion yn y sector uwchradd.

Mae gan bob aelod o staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir. Ceir gweithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer pob un o'r staff, sy'n nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu ysgol gyfan ac unigol yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr gynlluniau addas i fynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, 'Iaith Pawb', a gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Maent yn cyflawni eu rôl yn briodol, ac yn gyffredinol, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac mae ganddynt rolau penodol i fonitro cynnydd mewn pynciau a meysydd dysgu. Mae strwythurau addas ar waith, ac o fewn y rhain, gall y corff llywodraethol drafod a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol, er enghraifft trwy eu pwyllgor ansawdd a safonau. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr yn rhoi amcan rhy isel o'r diffygion o ran lles disgyblion yn y sector uwchradd.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen gryno ac arfarnol. Mae'n cynnwys gwerthusiad trylwyr a chywir o berfformiad ym mhob sector. Er bod yr adroddiad hwn yn gywir ar y cyfan, nid yw'r arfarniad o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn lles yn cyd-fynd yn ddigonol â'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr ysgol. Mae cynllunio gwelliant yr ysgol yn cynnwys ystod o strategaethau addas i fynd i'r afael â llawer o feysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn rhoi digon o bwys ar wella lles disgyblion yn ei chynllunio.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau hunanarfarnu defnyddiol, sy'n cynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae cofnodion o'r gweithgareddau hyn yn ddefnyddiol ar y cyfan o ran nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae ansawdd cyffredinol y rhain yn uwch yn y sector cynradd nag yn y sector uwchradd.

Mae'r ysgol wedi bod yn greadigol o ran datblygu mentrau i gael safbwyntiau rhieni, er enghraifft trwy'r 'Fforwm Rhieni' a'r cyfleuster 'Sgwrsio' yng nghanol y dref. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i safbwyntiau rhieni a disgyblion mewn meysydd pwysig fel lles ac addysgu. O ganlyniad, nid oes rôl ddigon llawn gan lais y disgybl yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol i gyd yn dilyn fformat cyffredin ac yn mynd i'r afael ag agweddau perthnasol sy'n gysylltiedig â safonau, addysgu ac arweinyddiaeth. Mae llawer o'r adroddiadau hyn yn cynnwys dadansoddiadau manwl a defnyddiol o ddata. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad yn ansawdd yr adroddiadau hyn. Mae lleiafrif ohonynt yn rhy ddisgrifiadol, ac nid yw arfarniadau o addysgu a lles mewn rhai adrannau yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigonol. Nid yw arweinwyr dysgu yn arfarnu effaith eu gwaith ar les disgyblion yn ffurfiol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol gyfan yn amlinellu blaenoriaethau'r ysgol gyfan yn glir, ac mae'r rhan fwyaf o dargedau yn fesuradwy. Ceir cysylltiadau clir rhwng adroddiad hunanarfarnu'r ysgol a chynllun datblygu'r ysgol. Mae costau'r cynllun wedi'u pennu'n llawn ac mae'n cynnwys ystod o weithgareddau gwerth chweil i wella safonau. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf defnyddiol i farnu llwyddiant camau gweithredu unigol, ac mae'n cynnwys cerrig milltir ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'r ysgol ar gyfer gwella yn cynnwys ffocws digon cryf ar les.

Mae cynlluniau gwella a gweithredu'r sector cynradd yn glir a chynhwysfawr. Mae rhai cynlluniau yn cynnwys mentrau creadigol ar draws sectorau, er enghraifft datblygu'r 'Cwricwlwm Cymreig'. Mae systemau monitro yn drylwyr. Fodd bynnag, mae cynlluniau datblygu adrannol y sector uwchradd yn amrywio o ran ansawdd. Mae mwyafrif y cynlluniau hyn yn addas ac yn cysylltu'n briodol ag arfarnu adrannol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o gynlluniau yn cynnwys gormod o flaenoriaethau, ac nid ydynt yn cynnwys costau, graddfeydd amser na syniad cywir o sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur. Mewn rhai achosion, ni chaiff blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu eu cynnwys yn y cynlluniau gwella.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerth chweil a chreadigol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, sy'n cyfrannu tuag at lawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion.

Ceir cysylltiadau effeithiol ag ysgolion cynradd partner i helpu disgyblion i drosglwyddo'n ddidrafferth i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda iawn â'r ysgol arbennig leol. O ganlyniad, ceir darpariaeth fanylach a buddiol ar gyfer grŵp bach o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae gweithdrefnau addas ar waith i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed mewn cydweithrediad ag ystod briodol o asiantaethau allanol.

Mae cysylltiadau gwerth chweil â'r gymuned leol a chyflogwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a phrofiadau defnyddiol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r coleg lleol a darparwyr eraill i ymestyn ystod y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae partneriaeth yr ysgol gyda phrifysgol leol yn galluogi staff i wneud gwaith ymchwil gwerthfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu harfer broffesiynol ac ar ddeilliannau fel presenoldeb gwell a gwella cyrhaeddiad bechgyn.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o fentrau arloesol i wella cyfathrebu â rhieni, sy'n cynnwys 'Ebwy Fawr' a gwefan addysgiadol a defnyddiol. Ceir 'Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau' weithgar ac mae'r ysgol yn cynnal boreau coffi'n rheolaidd ar gyfer rhieni. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu perthnasoedd gyda rhieni.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau addas i fodloni gofynion y cwricwlwm a chefnogi dysgu yn y ddau sector. Mae rhai athrawon o'r sector uwchradd yn addysgu'n rheolaidd yn y sector cynradd, lle mae disgyblion iau yn elwa ar eu harbenigedd pwnc. Mae hyn yn ehangu profiad athrawon hefyd, ac yn cyfrannu at gyfnod pontio effeithiol ar gyfer disgyblion cynradd. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol ac at lwyddiant y strategaethau ymyrraeth niferus y mae'n eu defnyddio i wella deilliannau disgyblion.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynorthwyo staff yn dda trwy ddarparu rhaglenni hyfforddi arloesol ar eu cyfer, i fodloni eu hanghenion datblygiadol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae arweinwyr yn annog staff i arfarnu eu perfformiad eu hunain, rhannu arfer dda a dysgu gan gydweithwyr. Mae'r 'rhaglen triadau', er enghraifft, yn galluogi athrawon o wahanol sectorau i weithio'n gynhyrchiol â'i gilydd.

Ceir systemau effeithiol i sicrhau bod cyllid priodol i gefnogi blaenoriaethau strategol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn y ddau sector.

